Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Tal-y-Bont

**Talybont**
**Ceredigion**
**SY24 5HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Tal-y-Bont

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gymunedol Tal-y-Bont |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 80 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 68 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 7.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 22.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 42.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1 |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 20/04/2001 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/06/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygwyd.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Tal-y-Bont yn gymuned ofalgar, hapus a theuluol. Mae’r holl staff yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn ymddwyn yn barchus ac yn gwrtais. Mae’r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn dda. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon effeithiol ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a’i ddathlu’n ddeniadol o gwmpas yr ysgol.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm sy’n cynnig ystod o brofiadau pwrpasol i ddisgyblion ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad. Mae llais y disgybl yn rhan bwysig o’r broses ar gyfer cynllunio gweithgareddau, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi’n frwdfrydig i’w dysgu. Mae awyrgylch gadarnhaol yn y dosbarthiadau ac maent yn gymunedau dysgu gweithgar. At ei gilydd, mae athrawon yn defnyddio ystod addas o dechnegau addysgu effeithiol. Er hyn, mae’r cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflwyno eu gwaith yn anghyson.

Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref ac angerddol a chaiff ei gynorthwyo’n dda gan y pennaeth cynorthwyol. Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol i gynllunio ar gyfer gwelliannau yn drylwyr, gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso cadarn. Mae’r corff llywodraethol yn gefnogol ac yn adnabod yr ysgol yn dda o ran ei chryfderau a’r meysydd i’w datblygu.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Ymestyn cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion wneud penderfyniadau am sut i gyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhelliad o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda o'u mannau cychwyn ac yn gwneud cynnydd cadarn mewn dysgu ac wrth ddatblygu eu medrau. Mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn unol â'u targedau unigol.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau gwrando a siarad yn effeithiol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dilyn cyfarwyddiadau staff yn bwrpasol gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa yn eu chwarae a’u dysgu. Maent yn gwrtais ac yn hyderus wrth ofyn ac ymateb i gwestiynau, gan gydweithio’n effeithiol gydag eraill. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn rhagfynegi pa ddeunyddiau fydd yn suddo neu arnofio mewn dŵr, gan ddefnyddio geirfa benodol yn llwyddiannus. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae’r mwyafrif yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trafod gydag aeddfedrwydd, sy’n cynnwys trafodaeth am y rhesymau o blaid ac yn erbyn cael parc newydd yn y pentref.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu dealltwriaeth o seiniau llythrennau ac yn dechrau defnyddio dulliau darllen yn dda, er enghraifft wrth iddynt ddarllen cyfarwyddiadau ar sut i wneud cawl gwair yn y gegin fwd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen testunau syml yn eglur gan ddangos mynegiant cynyddol. Mae mwyafrif y disgyblion hynaf yn dangos mwynhad wrth ddarllen llyfrau ffuglen, gyda ychydig yn trafod eu hoff awduron yn dda. Mae llawer yn adnabod rhinweddau amlwg mewn llyfrau darllen Cymraeg a Saesneg, fel pan mae’r cymeriadau yn siarad, gydag ychydig o’r darllenwyr mwy hyderus yn addasu goslef eu llais i ddynwared cymeriadau yn effeithiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn gyda’u medrau ysgrifennu. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu sylfaenol wrth ffurfio siapiau a marciau mewn tywod a blawd. Mae disgyblion Blwyddyn 2, er enghraifft, yn defnyddio ansoddeiriau dychmygus i ddisgrifio taith gerdded o gwmpas y pentref. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn atalnodi a threfnu eu gwaith yn synhwyrol. Mae’r disgyblion hŷn yn defnyddio ystod o ddulliau effeithiol i greu awyrgylch o ofn ac anesmwythder wrth ddisgrifio profiadau plant yn ystod y ‘Blitz’ yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gyson. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu dealltwriaeth o werth digidau rhwng 0 a 20 yn effeithiol, er enghraifft pan maent yn cyfrif camau wrth gerdded trawst y môr leidr. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn datrys problemau mathemategol syml yn gywir gan ddefnyddio amrywiol ddulliau yn synhwyrol. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth addas o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu. Maent yn casglu, cyflwyno a dehongli gwybodaeth yn ddeallus ar ffurf graffiau llinell, tablau, a thaenlenni. Pan gânt y cyfle, maent yn defnyddio eu dealltwriaeth fathemategol mewn meysydd eraill o’r cwricwlwm yn briodol, yn enwedig mewn gweithgareddau’r dyniaethau. Er enghraifft, maent yn cyfrifo’n fedrus y pellter sydd yn rhaid i athletwyr ei deithio i Baris

er mwyn cystadlu yn y Gemau Olympaidd. Er hyn, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd wrth eu cymhwyso mewn meysydd eraill o’r cwricwlwm yn ddigon effeithiol a chyson.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau digidol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau yn effeithiol wrth fwydo cyfarwyddiadau i declyn rhaglenadwy symud i wahanol leoedd. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn gwneud cynnydd da wrth gasglu gwybodaeth a threfnu data ar ffurf tablau a siartiau. Mae’r disgyblion hynaf yn defnyddio ystod o feddalwedd i gyflwyno gwaith ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth gyfuno medrau animeiddio a chynhyrchu i greu ffilm bwerus am destun pwrpasol ‘Dim Amaeth, Dim Maeth’.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda ar draws yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion ieuengaf yn mwynhau defnyddio ystod o offer a defnyddiau i greu lluniau a modelau gan arbrofi â dull  arlunydd o Siapan, tra bod y disgyblion hynaf yn cydweithio ag artist enwog o’r pentref i greu murlun godidog ar wal yr ysgol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu medrau corfforol yn dda drwy'r ysgol. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy’n hybu eu hiechyd a'u lles, fel chwarae gemau tîm a chymryd rhan mewn sesiynau athletau, dawns a gymnasteg.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron bob disgybl yn dangos balchder at fod yn aelod o deulu clòs yr ysgol ac maent yn mwynhau’r profiadau cyfoethog sydd yn eu cefnogi i ddysgu. Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw’r modd mae disgyblion yn dangos parch a chwrteisi at ei gilydd, at staff ac ymwelwyr. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hymddygiad ar bob achlysur ac yn ymwybodol o ddisgwyliadau uchel oedolion.

Mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi petai ganddynt unrhyw bryder. Maent yn gwybod sut i gadw'n iach a pha gamau sydd angen eu dilyn i gadw'n ddiogel ar-lein, er enghraifft peidio â rhannu cyfrinair. Maent yn mwynhau mynychu’r ysgol ac mae eu cyfraddau presenoldeb yn dda.

Mae bron bob disgybl yn hyderus wrth drafod eu teimladau yn ddyddiol trwy flychau rhannu pryder pwrpasol. Maent yn esbonio’n synhwyrol fod ganddynt ymddiriedaeth mewn staff, gan ddangos parodrwydd i drafod unrhyw bryderon gyda nhw. Yn ychwanegol, maent yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt wrth ystyried gwahanol agweddau o’u lles emosiynol a chorfforol. Er enghraifft, yn dilyn trafodaeth rhwng y cyngor eco a’r pennaeth, darparwyd biniau bwyd er mwyn lleihau gwastraff cyffredinol yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnig syniadau i’w cynnwys yn eu themâu, ac yn cyd-gynllunio gweithgareddau dysgu pwrpasol gyda’u hathrawon. Maent yn gwerthfawrogi bod athrawon yn gwrando ar eu hawgrymiadau yn y dosbarthiadau ac yn cynnwys eu syniadau wrth gynllunio. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb a mwynhad wrth ddilyn gwahanol drywyddion dysgu. At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau dysgu

annibynnol yn addas, er enghraifft wrth ddewis adnoddau i gefnogi eu dysgu a phenderfynu sut i gyflwyno eu gwaith.

Datblyga'r rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu. Maent yn awyddus i fanteisio ar yr ystod gyfoethog o brofiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer. Maent yn dangos cymhelliant, chwilfrydedd a dyfalbarhad yn eu gweithgareddau dysgu. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn wynebu profiadau a sefyllfaoedd newydd gyda hyder a gwytnwch cynyddol. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn cyfranogi'n dda iawn yn y gweithgareddau.

Trwy eu hymwybyddiaeth o'r gwerthoedd sy'n cael eu hyrwyddo gan staff, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd materion moesol. Maent yn deall pwysigrwydd cefnogi pobl eraill mewn cymdeithas. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn cynnal trafodaeth aeddfed ar thema LGHDT+, gan ystyried yr hyn sydd angen ei newid yn ein cymuned. Trwy ddysgu am themâu tebyg, maent yn datblygu empathi a dealltwriaeth ddofn o brofiadau pobl sy'n angerddol am egwyddorion ein cymdeithas.

Mae bron bob un disgybl yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau, ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi ysgrifennu llythyr o gŵyn i adeiladwyr a wnaeth dorri coed afalau wrth osod ffens newydd o amgylch cae'r ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr holl staff berthynas waith agos a chynhaliol â'r disgyblion. Maent yn trin pob disgybl gyda charedigrwydd a pharch sy'n creu amgylchedd cynhwysol a gofalgar. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn cydweithio'n bwrpasol i feithrin agweddau cadarn dyfalbarhad a gwytnwch pob disgybl.

Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n datblygu dealltwriaeth gadarn disgyblion o'u hardal leol, hunaniaeth a diwylliant Cymru. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Yr ardal leol', mae staff yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddwysáu eu dealltwriaeth o ddiwydiant lleol pwysig gan drafod effaith y gweithfeydd mwyn ar eu milltir sgwâr. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn dda. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn ystod gyfoethog o weithgareddau ar draws y meysydd dysgu.

Mae staff yn cynllunio cwricwlwm sy'n darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amryw brofiadau diddorol ac ysgogol. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu dealltwriaeth o faterion cyfoes byd eang, er enghraifft wrth ymchwilio i'r heriau mae rhai plant yn eu wynebu mewn ardaloedd cyferbyniol ledled y byd. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau, credoau a chrefyddau eraill. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn datblygu i fod yn ddinasyddion gwybodus a deallus sy'n dangos empathi a pharch at eraill.

Mae staff yn hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn gadarn ac mae hyn yn atgyfnerthu eu dysgu a'u mwynhad o ddefnyddio'r iaith yn dda. Mae'r holl oedolion yn arddel iaith raenus ac yn annog a chefnogi'r disgyblion i ddefnyddio Cymraeg safonol a chyson, sy'n naturiol i'w hardal leol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf wrth gaffael a datblygu medrau Cymraeg.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae cyflwyniadau llawer o athrawon yn fyrlymus ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn fwriadus. Maent yn rhoi adborth llafar amserol i ddisgyblion sy'n eu helpu i wybod beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi adnabod yr angen i wella adborth ysgrifenedig athrawon i gefnogi disgyblion i wybod beth yw'r camau nesaf wrth wella eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn briodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn darparu cyfleodd pwrpasol i ddisgyblion wneud dewisiadau am y modd maent yn dymuno cyflwyno eu gwaith a'r adnoddau mae angen iddynt eu defnyddio. Mae hyn yn arafu gallu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol.

Mae holl staff yr ysgol yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn gofalu amdanynt yn fedrus. Mae gan athrawon adnabyddiaeth gadarn o anghenion y disgyblion, sy'n cynnwys gwerthfawrogi eu diddordebau er mwyn eu hysgogi a'u cefnogi i ganolbwyntio ar weithgareddau dysgu. Gan amlaf, mae'r gweithgareddau wedi'u teilwra'n gynnil i ymateb i'w hanghenion. Mae staff yn hybu ymddygiad da'r disgyblion yn ofalus a meddylgar, sy'n eu cynorthwyo i ddyfalbarhau'n synhwyrol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio ymweliadau addysgol ysgogol i gyfoethogi ac atgyfnerthu'r dysgu. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn mynd ar deithiau cerdded i'r gymuned sy'n datblygu eu dealltwriaeth o'u cynefin yn effeithiol. Mae'r disgyblion hynaf yn dwysáu eu dealltwriaeth o Gymru wrth ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyffrous i ddisgyblion weithio gydag artistiaid a pherfformwyr lleol, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf greu dawns draddodiadol wedi iddynt gymryd rhan mewn gweithdy clocsio.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn hyrwyddo perthnasoedd iach gyda phwyslais penodol ar sicrhau cyfle cyfartal a thegwch i bob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol. Rhoddir pwyslais ar werthfawrogi amrywiaeth yn seiliedig ar yr egwyddor bod pawb yr un mor bwysig â'i gilydd ac yn elfen ganolog o waith yr ysgol. Mae staff yn darparu nifer o strategaethau sy'n sicrhau bod yr ysgol yn lle cyfeillgar, gofalgar a chynhwysol yn seiliedig ar barch ac empathi. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae staff yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), sy'n cynnwys cysylltiad agos a chlòs â rhieni. Mae'r ysgol yn gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau allanol er mwyn defnyddio adnoddau i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd, ac i ddarparu arbenigeddau penodol, yn ôl yr angen. Defnyddia'r cydlynydd ADY asesiadau defnyddiol i greu proffil o anghenion penodol disgyblion, ynghyd â chynllun cymorth synhwyrol i'w cefnogi i wella eu lles

ac i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae staff yn adnabod ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd i rannu gwybodaeth a chefnogi anghenion penodol y disgyblion. At ei gilydd, mae'r trefniadau hyn yn briodol wrth asesu a chefnogi'r disgyblion i wella yn unol â'u targedau personol unigol. Yn ogystal, mae staff yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd trwy ddarparu rhaglenni cefnogi penodol, er enghraifft i wella eu medrau darllen.

Mae athrawon yn defnyddio dulliau addas i sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau pob diwrnod. Trwy hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cydlynus i gynllunio gweithgareddau amrywiol yn ystod sesiynau boreol 'Doniau'n denu'. O ganlyniad, mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb a phrydlondeb yr ysgol. Mae'r pennaeth yn monitro presenoldeb yn drylwyr ac yn cydweithio'n effeithiol â rhieni ac asiantaethau allanol.

Wrth hyrwyddo datblygiad diwylliannol disgyblion, mae athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau gwerthfawr a chyfleoedd pwrpasol iddynt ddathlu eu treftadaeth a'u diwylliant Cymreig. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn flynyddol mewn gŵyl hwyl pentref Tal-y-Bont ac yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion mentrus a hyderus sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod. Mae dealltwriaeth disgyblion o foesau a gwahanol grefyddau yn datblygu'n effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas gydweithredol â'r rheini ac maent yn gwerthfawrogi'r gofal ac arweiniad a gaiff eu plant gan staff. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr ymdeimlad cartrefol sy'n bodoli yn yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinyddiaeth angerddol ac ysbrydoledig y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo weledigaeth gadarn wedi ei seilio ar 'hunan-barch, hunanhyder a hunanddisgyblaeth', sy'n sicrhau bod bob disgybl yn cael yr addysg orau mewn amgylchedd cartrefol, cynhwysol a Chymreig. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, a gyda chefnogaeth gref y pennaeth cynorthwyol, mae'n rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus gyda holl gymuned yr ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ymdeimlad o waith tîm yn gryf ar draws yr ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth da o'u rolau â'u cyfrifoldebau. Mae staff yn gyfrifol am agweddau penodol o waith yr ysgol ac yn cyfrannu'n bwrpasol at sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau dros amser.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Maent yn sicrhau bod rhanddeiliaid, fel staff a disgyblion, yn casglu ystod gynhwysfawr o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn dadansoddi'r dystiolaeth yn ofalus ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn llunio cynlluniau gwella manwl sy'n rhoi sylw pwrpasol i'r meysydd hyn ynghyd â mynd i'r afael â blaenoriaethau gwella cenedlaethol, er enghraifft i leihau effaith tlodi ar safonau, cynnydd a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn gosod cerrig milltir reolaidd i werthuso cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hyn ac yn addasu eu dulliau gweithredu yn briodol, yn ôl yr angen.

Mae'r corff llywodraethol yn wybodus ac yn dwyn y pennaeth a'r staff i gyfrif yn fedrus. Maent yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda ac yn cefnogi'r ysgol yn angerddol. Mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn cyfrannu'n werthfawr at werthuso gwaith yr ysgol trwy ystod o weithgareddau monitro. Maent hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr a staff, yn sefydlu diwylliant diogelu cadarn yn yr ysgol, ac maent yn sicrhau bod y profiadau dysgu a ddarperir ganddynt yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth glir o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad addas ar waith i staff. Mae ganddynt amcanion gwella pwrpasol sydd wedi'u seilio ar flaenoriaethau'r ysgol ac sydd yn bersonol i'w hanghenion datblygu unigol. Mae staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant sy'n ateb gofynion eu datblygiad proffesiynol. Maent yn cydweithio'n agos â staff ysgolion lleol i rannu arbenigedd a syniadau. Er enghraifft, maent wedi cydweithio'n effeithiol wrth rannu arferion addysgu llwyddiannus i wella medrau darllen disgyblion. Caiff y cynorthwywyr gyfleoedd bwriadus i ddatblygu'n broffesiynol hefyd, er enghraifft wrth fynychu hyfforddiant i gefnogi anghenion lles emosiynol disgyblion.

Mae gan arweinwyr gynllun gwariant synhwyrol sy'n sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae'r arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau gwariant buddiol i gyd-fynd ag anghenion pwysig. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i'r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion i ddarparu rhaglenni cefnogi i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach â'u dysgu.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles ac addysg eu plant. Caiff gwybodaeth berthnasol am weithgareddau'r ysgol ei rhannu'n effeithiol gyda'r rheini mewn cylchlythyr gwerthfawr, 'Tameidiau Tal-y-bont', yn wythnosol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2024